Adroddiad i:	Pwyllgor Llywio'r Iaith Gymraeg
Dyddiad y cyfarfod:	5 Gorffennaf 2023
Aelod Arweiniol/Swyddog	Cynghorydd Emrys Wynne/ Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Awdur yr adroddiad:	Manon Celyn Roberts, Swyddog Iaith Gymraeg
Teitl:	Adroddiad Sicrwydd Strategaeth Iaith 2017-2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Adroddiad sicrwydd Strategaeth Iaith 2017-2022. Comisiynwyd Cyngor Sir Ddinbych y Ganolfan Gynllunio Iaith er mwyn llunio'r adroddiad.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 I drafod a chytuno ar gynnwys Adroddiad Sicrwydd Strategaeth Iaith 2017-2022, sydd yn ofyniad statudol.

3. Beth yw'r argymhellion?

3.1 I gytuno ar gynnwys yr adroddiad.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae disgwyl i'r Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi adroddiad asesu cyrhaeddiad ar ein Strategaeth Iaith 2017-2022 a llunio strategaeth ddiwygiedig ar gyfer yr ail gyfnod o 5-mlynedd (2023-28).

4.2 Mae hi'n ddyletswydd statudol, yn unol â'r Safonau (safon 145), i'r Cyngor gydymffurfio drwy gyhoeddi'r adroddiad yr un amser â'r Strategaeth 5-mlynedd ddiwygiedig.

4.3 Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad y Cyngor dros y 5-mlynedd (2017-22) i weithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y sir ac er mwyn cyfrannu'n bositif tuag at yr ymgyrch genedlaethol i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

4.4 Yn ogystal â gwerthuso canlyniadau'r strategaeth iaith, bydd asesu i ba raddau yr ydym wedi dilyn ein strategaeth yn elwa o werthuso'r dulliau a fabwysiadwyd i weithredu a monitro'r strategaeth dros y pum mlynedd diwethaf.

4.5 Byddai adolygu'r agweddau amrywiol a ddefnyddiwyd i weithredu a monitro'r strategaeth yn cynnig cyfle i adnabod y llwyddiannau a'r rhwystrau y bydd angen ceisio eu datrys dros y pum mlynedd nesaf

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Mae'r penderfyniad yn cyfrannu at ddatblygiad Sir Ddinbych â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu sy'n un o amcanion allweddol Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2022-27.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Does dim cyllid benodol ar gyfer y gwaith hwn ond mae Gwasanaethau Cymunedau a Chwsmeriaid wedi talu £12,000 ar gyfer costau comisiynu'r Ganolfan Cynllunio Iaith i gynhyrchu'r adroddiad hwn. Nid dyma fydd yr achos bob tro y mae angen i ni adolygu'n Strategaeth, yr unig reswm am hyn yw gan mai dyma'n Strategaeth Iaith Gymraeg a'n hadroddiad llwyddiant cyntaf i ni orfod adrodd arnynt.

7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Er nad oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ffurfiol ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n werth nodi rhai o'r manteision allweddol mewn perthynas â Deddf Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Safonau Iaith Gymraeg.

7.2 Un o elfennau allweddol Ddeddf Lles a Chenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw: "Cymru â diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus: Cymdeithas sy'n hybu ac yn diogelu diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn celfyddydau, chwaraeon a hamdden.”

7.3 Mae gan y Cyngor rôl hefyd, trwy ei Safonau Iaith Gymraeg, i hyrwyddo cyfleoedd i gymunedau lleol gymryd rhan mewn gweithgareddau Iaith Gymraeg.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Ymgynghorwyd ag Aelod Arweiniol y Cabinet dros yr Iaith Gymraeg a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Arweiniol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y prif risg yw enw da’r awdurdod gan ein bod eisoes wedi gwneud ymrwymiad yn y Strategaeth Iaith Gymraeg a thrwy’r Safonau Iaith Gymraeg i hyrwyddo defnydd o’r iaith yn y gweithle ac o fewn ein cymunedau.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011